# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

## Cyflwyniad

Ers ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ymrwymiadau pellach gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, y Cynllun Gweithredu ar Anabledd a Chynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau. Mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at gyflawni'r uchelgeisiau pwysig yma.

Un diweddariad arwyddocaol o safbwynt hyn yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn falch o gytuno i gryfhau ymhellach hawliau plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn cefnogaeth gan y system gofal. Fel cyngor, rydym yn cydnabod bod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu rhwystrau sylweddol a all effeithio eu holl fywyd. Byddwn felly yn ystyried hon yn nodwedd warchodedig yn yr un modd ag y mae oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi ac yn gwneud y gorau o alluoedd a chyfraniadau pawb yn ein cymunedau. Yr amcanion a'r gweithredoedd a amlinellir yn y cynllun hwn yw'r pethau rydym wedi ymrwymo i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod pawb yn ein sir yn gallu cyflawni i'w llawn botensial.

**Amcan 1 - Mynediad at wasanaethau**

Gwella'r profiad a'r canlyniadau i'n cwsmeriaid, gan sicrhau bod gan bob preswylydd fynediad teg i'r gwasanaethau maent eu hangen.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn angenrheidiol i awdurdodau lleol hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu. Mae sicrhau mynediad i wasanaethau yn rhan hanfodol o gwrdd â'r ymrwymiadau cyfreithiol hyn. Gwelwn felly bod gwella mynediad at wasanaethau yn helpu i sicrhau bod holl aelodau'r gymuned, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig (megis oedran, anabledd, hil neu rywedd) gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas ac elwa o adnoddau cyhoeddus. Yn ogystal, mae'n bosib y gall rhai grwpiau wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau oherwydd amrywiol ffactorau megis iaith, hygyrchedd corfforol neu wahaniaethau diwylliannol. Drwy ganolbwyntio ar hygyrchedd, gall awdurdodau lleol adnabod a mynd i'r afael gyda'r gwahaniaethau hyn.

| Canlyniad<br>Sicrhau bod ein hymwneud â phreswylwyr yn gyson ac yn gynhwysol a'i fod yn datblygu ymhellach gysylltiadau gyda grwpiau amrywiol ac sy'n cael eu tangynrychioli. | | |
|---|---|---|
| Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| Sicrhau bod holl gyfathrebiadau a deunyddiau'r cyngor ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol ac yn gynrychioladol o gymunedau LHDTC+ a lleiafrifoedd ethnig. | Y Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu | Tachwedd 2026 |
| Cynnal sgyrsiau diffuant ac ystyrlon gyda phreswylwyr, gan gynnwys rhoi'r arolwg preswylwyr ar waith. | Tîm Ymgysylltu | Ebrill 2025 |
| Gwella mynediad at wasanaethau drwy sicrhau bod cyfathrebiadau i breswylwyr mewn fformatau hygyrch megis BSL, Darllen yn Hawdd a-fformatau heb fod yn ddigidol | Y Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu | Mawrth 2025 |
| Diweddarwyd yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb i gynnwys tlodi fel nodwedd warchodedig yn unol â’r ddyletswydd statudol. | Y Tîm Cydraddoldeb | Tachwedd 2024 |
| Cynnal digwyddiadau cymunedol, hyrwyddo cydlyniad cymunedol cadarnhaol a dathlu amrywiaeth | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Ebrill 2025 |

**Amcan 2 - Amddiffyn ein pobl fwyaf bregus**

Sefydlu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n diogelu ac yn cefnogi hawliau a lles ein poblogaethau mwyaf bregus mewn ffordd effeithiol, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, rhai sy'n profi digartrefedd neu dlodi a rhai sy'n cael mynediad ar ofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gofal i warchod y rhai sydd mewn mwyaf o berygl yn ein cymdeithas. Nid yn unig yw hyn yn rheidrwydd moesol ond y mae hefyd yn ofyn cyfreithiol o dan amrywiol gyfreithiau Cymru a'r DU, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

| Canlyniad<br><br>Sicrhau bod gan y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau sy'n eu cynorthwyo i fyw heb ofni trais neu gam-drin, a'u bod yn cael eu trin â pharch. | | |
|---|---|---|
| Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| Gweithio'n gydweithredol er mwyn cefnogi digwyddiadau Pride drwy'r brand 'Cynghorau Balch'. Dangos ein hymrwymiad i'r gymuned LHDTC+ a'n gweithlu drwy ddatblygu polisïau ac arfer ar draws yr holl awdurdodau lleol sydd yn gysylltiedig gyda Chynghorau Balch | Addewid Cydraddoldeb | Ebrill 2025 |
| Gwella ymwybyddiaeth a chanlyniadau troseddau casineb drwy ddatblygu gweithgareddau wedi'u targedu i sicrhau bod dioddefwyr a dioddefwyr posib troseddau casineb yn ymwybodol o'r broses adrodd a sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael iddynt. | Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Ebrill 2025 |
| Parhau i weithio'n gydweithredol gyda Heddlu De Cymru a Chefnogi Dioddefwyr | Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Rhagfyr 2025 |
| Gweithio gyda phartneriaid i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (Hydref) | Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Rhagfyr 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Hyrwyddo'r ap StreetSnap<br><br>Rhannu unrhyw gyfleoedd hyfforddi perthnasol gyda phartneriaid | Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Rhagfyr 2025 |
| Gweithio gydag ysgolion er mwyn datrys tensiynau a chyfeirio at gefnogaeth lle mae'n angenrheidiol. | Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Rhagfyr 2025 |
| Datblygu dull addysg gyfan tuag at drais yn erbyn menywod, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol | Tîm VAWDASV | Rhagfyr 2025 |
| Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y naw elfen o'r dull ysgol gyfan yn cael eu gweithredu ym mhob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr | Tîm VAWDASV | Rhagfyr 2025 |
| Gwella ymwybyddiaeth o sut i adrodd am drais yn erbyn menywod, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol a'r cymorth sydd ar gael | Tîm VAWDASV | Rhagfyr 2025 |
| Adnabod tair ymgyrch flynyddol a chynllunio a chyflawni gweithredoedd priodol er mwyn gwneud y gorau o'u traweffaith gan gynnwys rhai ar gyfer: Pobl hŷn, pobl ag anableddau | Tîm VAWDASV | Rhagfyr 2025 |

**Amcan 3 - Safonau Byw**

Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i bolisïau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Rhoi ystyriaeth i wasanaethau hanfodol ac effaith digartrefedd, costau byw ac effeithiau niweidiol ar unigolion.

<u>Pam mae hyn yn bwysig?</u>

Sicrhau bod safonau byw addas yn helpu i gwrdd ag anghenion dynol sylfaenol megis tai, maeth a gofal iechyd. Drwy ganolbwyntio ar safonau byw yn uniongyrchol mae'n mynd i'r afael â thlodi a'i draweffaith pellgyrhaeddol ar unigolion a chymunedau.

Mae tystiolaeth yn dangos bod cydberthynas cryf rhwng safonau byw gwell a gwell iechyd corfforol a meddyliol.

| <u>Canlyniad</u><br>Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i bolisïau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol | | |
|---|---|---|
| Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| Parhau i gefnogi ac adrodd ar gynnydd nifer y bobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol sy'n cael mynediad at gefnogaeth | Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr | Ebrill 2025 |
| Parhau i gefnogi ac adrodd ar nifer y bobl sy'n cael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl a chorfforol sy'n arwain at gyflogaeth | Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr | Ebrill 2025 |
| Parhau i gefnogi ac adrodd ar y gwaith effeithiol rhwng gweithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol | Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr | Ebrill 2025 |
| Parhau i gefnogi ac adrodd ar nifer y bobl sy'n profi llai o rwystrau strwythurol at gyflogaeth ac i mewn i ddarpariaeth sgiliau | Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr | Ebrill 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynhyrchu arweiniad a chefnogaeth ar gyfer staff ynghylch ychwanegu bod â phrofiad o fod mewn gofal i'r grwpiau sy'n cael eu gwarchod | Rheolwr Cydraddoldeb | Mawrth 2025 |
| Sicrhau bod y cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei roi i bob un o weithwyr y cyngor er budd y rhai sydd ar y graddfeydd cyflog isaf. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Hyrwyddo iechyd a lles gweithwyr drwy bartneriaethau gyda Halo, y cynllun Beicio i'r Gwaith | Adnoddau Dynol | Mawrth 2025 |
| Adrodd ar gyfanswm nifer y cartrefi sy'n gymwys, rhai sy'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen o ran blaenoriaeth yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod yn flynyddol. | Ymgynghorydd Datrysiadau Tai | Tachwedd 2025 |
| Adrodd ar gyfanswm nifer y teuluoedd digartref sy'n cael eu cartrefu dros dro gan eich awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn. | Ymgynghorydd Datrysiadau Tai | Tachwedd 2025 |
| Cyfanswm nifer y ceisiadau am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n cael eu dyfarnu'n flynyddol. | Y Tîm Buddion | Tachwedd 2025 |
| Cyfanswm nifer o geisiadau Grantiau Gwisg Ysgol Benodol sy'n cael eu dyfarnu'n flynyddol. | Y Tîm Buddion | Tachwedd 2025 |
| Cyflawni'r Rhaglen Bwyd a Hwyl Ysgolion cenedlaethol, yn ddibynnol ar ariannu mewn ardaloedd lleol y cytunwyd arnynt. | Y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Yn flynyddol - Tachwedd 2025 |

**Amcan 4 - Cyfranogiad ac Ymgysylltu**

Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan a dangos diddordeb mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau. Adeiladu a chynyddu perthnasoedd o ansawdd dda gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

<u>Pam mae hyn yn bwysig?</u>

Mae'r amcan hwn yn sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau amrywiol yn cael eu clywed fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae gwaith ymgysylltu yn galluogi i breswylwyr gael dweud eu dweud ac i gyfrannu at ddylanwadu ar eu hardaloedd a'u gwasanaethau lleol. Mae mewnbwn gan grwpiau amrywiol yn arwain at bolisïau a gwasanaethau mwy effeithiol a pherthnasol, felly mae ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol yn meithrin ymddiriedaeth rhwng y gymuned â llywodraeth leol.

| <u>Canlyniad</u><br>Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan a dangos diddordeb mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau. | | |
|---|---|---|
| Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| Adolygu cynnwys ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwella amlygrwydd ac annog hygyrchedd. | Y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu/Rheolwr Cydraddoldeb | Ebrill 2025 |
| Symleiddio'r broses ymgynghori drwy ddosbarthu a rhoi'r ffurflen ar-lein ar waith a gwneud asesiad traweffaith cydraddoldeb yn orfodol fel rhan o'r broses gychwynnol. | Rheolwr Cydraddoldeb | Ionawr 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwella ymgysylltu cymunedol drwy hyrwyddo cyfle cyfartal, gwaredu rhwystrau a darparu digwyddiadau estyn allan ac ymgysylltu hygyrch a chynhwysol. Dathlu amrywiaeth a chefnogi cymunedau sydd ar y cyrion | Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol | Mawrth 2025 |
| Adeiladu cymunedau cydnerth drwy fonitro tensiynau oddi mewn i'r gymuned a hyrwyddo prosiectau cymunedol sy'n seiliedig ar gydlyniad. | Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol | Ebrill 2025 |
| Gwnewch y gorau o Fis Hanes Pobl Dduon (Hydref) drwy weithio'n agos gyda phartner i amlygu realiti effaith negyddol anghydraddoldeb hiliol a dathlu'r cyfraniad a wneir gan gymunedau ethnig i'n bywyd lleol a chenedlaethol. Cydweithio gyda sefydliadau partner megis Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth. | Rheolwr Cydraddoldeb | Tachwedd 2025 |

**Amcan 5 - Dysgu**

Hyrwyddo mynediad cyfartal at ddysgu o ansawdd dda i bob myfyriwr, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, gallu, oedran neu gefndir ethnig. Cefnogi amrywedd, cydraddoldeb a chynhwysiant ym mhob peth.

Pam mae hyn yn bwysig?

Gall cyfleoedd dysgu helpu i dorri cylchdro o fod o dan anfantais a hyrwyddo symudedd cymdeithasol cadarnhaol ac ar yr un pryd mae'n annog dysgu gydol oes, helpu cymunedau i addasu i dirweddau economaidd a chymdeithasol sy'n newid/

Mae hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth a pharch at ddiwylliannau amrywiol o fewn y gymuned a gall mentrau dysgu wedi'u targedu helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethau addysgol ymysg gwahanol grwpiau. Mae tystiolaeth gyffredinol yn awgrymu bod addysg yn gysylltiedig gyda gwell ymwybyddiaeth o iechyd a deilliannau iechyd gwell.

| Canlyniad<br><br>Dylai pawb sy'n cael mynediad at addysg fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a cham-drin mewn sefydliadau addysgol. | | |
|---|---|---|
| Gweithred | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| Darparu adroddiadau rheolaidd am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig gyda gwahaniaethu sy'n cael eu casglu gan ysgolion a'u rhannu gyda'r timau addysg. | Rheolwr Cydraddoldeb ac Addysg | Tachwedd 2025 |
| Adnabod tueddiadau ac adolygu strategaethau gwrth-fwlio/ troseddau casineb fel bod datrysiadau effeithiol mewn lle | Rheolwr Cydraddoldeb ac Addysg | Rhagfyr 2024 |
| Sefydlu'r Grŵp Cydraddoldeb EEYYP er mwyn dadansoddi data ynghylch digwyddiadau'n gysylltiedig ag achosion o wahaniaethu o fewn ysgolion. | Addysg | Medi 2025 |
| Yn unol ag ARWAP ein nod yw gwella profiad Dysgwyr Du, Asiaidd ac o Gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol drwy:<br>• Sicrhau bod ysgolion yn adrodd yn gyson.<br>• Rhannu arfer da rhwng ysgolion drwy amrywiaeth o fforymau.<br>• Gwrando ar brofiadau dysgwyr | Addysg | Medi 2026 |

**Amcan 6 - Cyflogaeth**

Hyrwyddo gweithle mwy cynhwysol sy'n rhoi gwerth ar amrywedd. Hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, lles a chyfleoedd datblygu ar gyfer rhai â nodweddion gwarchodedig.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r amcan hwn yn cydnabod mai nid dim ond rhywbeth sy'n ymwneud â mantais economaidd yw cyflogaeth, ond hefyd urddas, pwrpas a chydlyniad cymdeithasol. Mae'n ffactor allweddol sy'n rhan o greu cymdeithas decach, fwy ffyniannus.

| **Canlyniad**<br>**Gwella amrywiaeth yn ein gweithlu** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Amserlen** |
| Datblygu rhwydweithiau staff er mwyn darparu cymorth a chyfleoedd i fod yn gynhwysol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau gwarchodedig. | Rheolwr Cydraddoldeb | Rhagfyr 2025 |
| Diweddaru'r datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth ac yn y gweithle. | Rheolwr Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb | Mawrth 2025 |
| Datblygu gwybodaeth am ein gweithlu drwy gasglu ac annog pobl i gwblhau gwybodaeth bersonol sensitif a hynny drwy gyfrwng priodol. | Adnoddau Dynol | Mawrth 2025 |
| Defnyddio data meintiol ac ansoddol (gan gynnwys profiad bywyd) er mwyn monitro a gwella profiad recriwtio, cadw ac ymadael. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2028 |
| Ynghyd â'r Tîm Cydraddoldeb, hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig | Rheolwr Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb | Yn flynyddol - Ebrill 2025 |
| Parhau i dalu'r cyflog Byw Gwirioneddol (yn ddibynnol ar Ddyfarniad Cyflog) i bob un o weithwyr y cyngor er budd y rhai sydd ar y graddfeydd cyflog isaf. | Adnoddau Dynol | Yn flynyddol - Ebrill 2025 |
| Adrodd ar fwlch cyflog rhywedd, lleiafrif ethnig ac anabledd. | Adnoddau Dynol | Yn flynyddol - Ebrill 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r ddarpariaeth e-ddysgu bresennol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol a pherthnasol ar gael, gan gynnwys yr adran ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb y modiwl cynefino corfforaethol gorfodol. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Annog mwy o gyfranogiad mewn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a Chynefino Corfforaethol | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Adolygu arferion recriwtio er mwyn sefydlu p'un a oedd tynnu dull adnabod personol yn rhesymol. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2026 |
| Sefydlu'r nodwedd warchodedig newydd - Profiad o fod Mewn Gofal o fewn dogfennau AD a'r broses recriwtio. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Cynnig sesiynau gweithdy holi ac ateb ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn eu cynorthwyo i ymgeisio am swyddi. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Hyrwyddo a monitro cyfleoedd cyflogaeth i grwpiau ethnig er mwyn gwella cynrychiolaeth o fewn y gweithlu | Adnoddau Dynol | Ebrill 2028 |
| Parhau i fod yn gyflogwr hyderus o ran anabledd a chynyddu statws y cyngor i 'arweinydd anabledd'. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2026 |
| Adolygu'r protocol menapos yn unol â menter Tlodi Misglwyf Llywodraeth Cymru a chefnogi misglwyf. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2025 |
| Hyrwyddo iechyd a lles pob gweithiwr gan sicrhau bod y cymorth a'r adnoddau yn gyfredol ac wedi'u diweddaru. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2028 |
| Darparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bawb. | Adnoddau Dynol | Ebrill 2028 |
| Darparu hyfforddiant cydraddoldeb a rhagfarn ddiarwybod i gynghorwyr er mwyn annog mwy o gyfranogiad yn yr hyfforddiant | Gwasanaethau Democrataidd | Yn flynyddol - Ebrill 2028 |